Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 43 – 26 MAWRTH 2010

Diolch i chi gyd sydd wedi cefnogi digwyddiadau Morlan yn ddiweddar. Cafwyd amrywiaeth o bethau hyd yma eleni – drama, cyflwyniad, anerchiad, arddangosfeydd a noson o goginio. Gobeithio'n fawr y bydd y gefnogaeth honno'n parhau dros yr wythnosau nesaf.

Am 7.30, nos yfory (29in), cewch weld cyflwyniad gan Milly & Bo sy'n dathlu natur ac yn archwilio rôl adar o fewn chwedloniaeth, gan gynnwys stori Melangell a drudwy Branwen. Mae'r sioe ***STORIES WITH WINGS*** yn cynnwys straeon a chyfuniad unigryw o gerddoriaeth wreiddiol a cherddoriaeth draddodiadol Gymreig. Cymysgedd hudol i godi'r ysbryd ac agor drysau'r dychymyg. Addas ar gyfer oedolion a phlant dros 8 oed – tocynnau yn £6 (gost. £4).

Ychwanegiad newydd at ein rhaglen digwyddiadau yw ***DIC: DARLITH GOFFA GAN IDRIS REYNOLDS*** – cyfle i glywed rhan o'r hyn a adroddodd Idris Reynolds yng Ngwasanaeth Coffa'r Archdderwydd, y Prifardd, y storïwr, y darlledwr a'r ffermwr Dic Jones. Cadeirydd: Huw Meirion Edwards. Cynhelir y noson hon am 7.00, nos Iau,, 15 Ebrill. Tâl mynediad: £3. Trefnir gan y Morlan gyda chymorth yr Academi.

Dyma'r digwyddiadau eraill sydd ymlaen yma dros y bythefnos nesaf.

FFORWM 50+ ABERYSTWYTH
2.00-4.00, Mercher, 31 Mawrth
Cyfarfod misol (dydd Mercher ola' bob mis) i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

BORE COFFI
10.00-1.00, bore Sadwrn, 3 Ebrill
Bore coffi misol a drefnir gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar Sadwrn cyntaf bob mis. Cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen! Croeso i bawb.

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 8 Ebrill
Trefnir gan CAVO ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Manylion pellach: 01570-423232.

GRŴP BWDHAETH
7.30-9.00, nos Fercher, 14 Ebrill
Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn y Morlan ar ail nos Fercher y mis.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr